Rhif yr Elusen 1193114

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

A Chyfrif Derbyniadau a Thaliadau

am y flwyddyn diweddu 31 Mawrth 2023

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ynghyd a datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

Gwybodaeth gyffredinol a manylion gweinyddiaeth yr elusen, yr ymddiriedolwyr oedd yn gweithredu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 a'i ymgynghorwyr:

Enw'r Elusen	Clwb Ffrindie Bach
Rhif elusen gofrestredig	1193114
Prif Gyfeiriad yr Elusen	Ysgol Pen Barras Ffordd Glasdir Rhuthin LL15 1QQ
Enwau'r Ymddiriedolwyr Cadeirydd	Huw Hilditch-Roberts Marc Lloyd Jones (wedi ymddeol 22/04/26) Gareth Humphries (wedi ymddeol 22/04/26) Ffion Hughes Dyfan Mael Phillips (penodwyd 22/04/26)
Arolygwr Annibynnol	Richard Andrew Roberts BSc FCA Cyfrifwyr Hill & Roberts Accountants 1 Tan y Castell Rhuthun LL15 1DQ

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

Strwythur a rheolaeth

Mae Clwb Ffrindie Bach (y "Gymdeithas") yn fenter wedi ei sefydlu o dan gyfansoddiad ysgrifenedig ac yn cael ei gweinyddu gan bwyllgor gwaith.

Cyfansoddiad yr Elusen

Mae'r Gymdeithas yn Sefydliad Elusennol Corfforedig wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1193114).

Dewis ymddiriredolwyr

Mae pob aelod o'r pwyllgor gwaith yn ymddiriedolwr/wraig yn yr elusen. Mae'r pwyllgor gwaith wedi ei ethol o staff a llywodraethwyr Ysgol Pen Barras. Y pwyllgor gwaith sy'n gyfrifol am reoli gwaith y Gymdeithas.

Nodau ac amcanion

Nod y Gymdeithas yw darparu gofal plant diogel, fforddiadwy a hygyrch i ddisgyblion Ysgol Pen Barras, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cynnwys.

Mae'r Gymdeithas yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn hyrwyddo sgiliau iaith naturiol i'r plant ac yn cefnogi teuluoedd o bob cefndir i ddysgu, defnyddio a datblygu'r Gymraeg yn hyderus. Mae'r amgylchedd Cymraeg ei hiaith yn rhan annatod o'r profiad gofal a'r gweithgareddau dyddiol, gan gyfrannu at gynhwysiant, datblygiad iaith a chynnal diwylliant Cymreig bywiog o fewn y clwb.

Mae gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen wrth wraidd popeth a wnawn, gan gefnogi dysgu drwy chwarae. Anogir y plant i roi cynnig ar weithgareddau newydd, y tu mewn a'r tu allan.

Mae caniatáu i'r plant wneud eu dewisiadau eu hunain mewn amgylchedd diogel yn hanfodol i'w twf emosiynol, cymdeithasol, corfforol a gwybyddol.

Mae'r Gymdeithas yn dilyn amserlen ddyddiol o weithgareddau/digwyddiadau gan gynnwys amser cinio penodedig lle mae'r plant yn golchi eu dwylo yn gyntaf, yn dod â'u bag i'r bwrdd ac yn eistedd gyda'i gilydd i fwyta.

Mae'r holl Staff yn ddarostyngedig i DBS Uwch ac mae'n ofynnol iddynt gwblhau'r modiwlau Diogelu ar-lein. Anogir pob aelod o staff i ystyried eu datblygiad proffesiynol parhaus, ac rydym yn eu cefnogi'n llawn i wneud hynny.

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Mae'r Gymdeithas yn gweithio i gyflawni ei hamcanion drwy gynnig gofal plant diogel, fforddiadwy a hygyrch sy'n cefnogi lles a datblygiad disgyblion Ysgol Pen Barras. Trwy gynnig gweithgareddau ystyrlon y Cyfnod Sylfaen sy'n hyrwyddo dysgu drwy chwarae, cynnal trefnau dyddiol strwythuredig sy'n helpu plant deimlo'n sefydlog ac yn hyderus, ac annog annibyniaeth mewn amgylchedd diogel, mae'r Gymdeithas yn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi rhieni a gofalwyr i weithio, astudio neu reoli ymrwymiadau teuluol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach. Dangosir budd y cyhoedd ymhellach drwy arferion diogelu cadarn, gweithgareddau cynhwysol sy'n hygyrch i bob plentyn, hyrwyddo arferion iach, a buddsoddi mewn datblygiad parhaus y staff sy'n gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

Trefniant a Gweithgareddau

Rheolir yr elusen gan ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu darparu yn unol ag amcanion elusennol y corff, y ddogfen lywodraethu a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rheolir gweithrediadau dydd i ddydd gan y tîm gofal plant, gyda llinellau clir o gyfrifoldeb a chyfathrebu rhwng ymddiriedolwyr, uwch staff ac ymarferwyr.
Mae'r elusen yn darparu dwy brif wasanaeth:

Clwb Ffrindie Bach — yn cynnig gofal plant o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar chwarae ac sy'n cefnogi lles, datblygiad cymdeithasol a dysgu cynnar y plant. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 24 o blant, gyda 28 o blant ar y gofrestr yn mynychu ar wahanol ddiwrnodau'r wythnos. Cynllunnir gweithgareddau yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn cynnwys amrywiaeth eang o brofiadau creadigol megis lluniadu a gwneud marciau gyda chreion a pheniau felt, torri a siapio deunyddiau gyda siswrn, defnyddio stampiau ac offer gweadog, a chreu eitemau thematig sy'n gysylltiedig â'r pynciau cyfredol. Anogir y plant i ysgrifennu eu henwau eu hunain mewn cardiau Nadolig a Sul y Mamau, ac ar gefn unrhyw waith lliwio neu baentio, gan helpu i feithrin hyder mewn ysgrifennu cynnar. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygiad sgiliau echddygol manwl, yn cryfhau sgiliau cyn-ysgrifennu, ac yn annog plant i archwilio eu syniadau drwy chwarae pwrpasol. Ymhlith y themâu eleni mae *Fi Fy Hun*, *Dathliadau*, *Ffermio*, a *Y Traeth*.

Clwb ar ôl Ysgol — mae'r clwb wedi'i gofrestru i dderbyn uchafswm o 80 o blant bob nos, gyda thua 115 o blant ar y gofrestr yn mynychu ar wahanol ddiwrnodau'r wythnos. Mae pob sesiwn yn dechrau gyda byrbryd a diod, gan roi cyfle i'r plant ymlacio a chymdeithasu cyn mynd allan i chwarae. Mae gan y clwb sied lawn o feiciau, sgwteri ac amrywiaeth eang o gemau awyr agored, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwarae gweithgar, cydweithio a rhyngweithio cymdeithasol.

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

Trefniant a Gweithgareddau (parhad)
Anogir y plant i ddewis eu gweithgareddau eu hunain a chwarae gyda'i gilydd ar draws gwahanol flynyddoedd ysgol, gan feithrin hyder, annibyniaeth a pherthnasoedd cadarnhaol mewn amgylchedd diogel a goruchwyliedig.Mae gan y ddau leoliad weithdrefnau cadarn o ran ddiogelu, cymarebau staffio priodol, a chyfathrebu cryf â rhieni a'r ysgol. Mae staff yn dilyn polisïau sefydledig sy'n cynnwys rheoli ymddygiad, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, cydraddoldeb a chynhwysiant, a diogelu data.

Polisi cronfeydd
Mae'n rhan o bolisi'r elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhydd, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr elusen. Bu i'r cronfeydd anghyfyngedig gael eu cynnal ar y lefel yma gydol y flwyddyn.

Rheolaeth Risg
Mae'r ymddiriedolwyr wedi gwneud arolwg risg ym meysydd strategaeth, busnes a gweithredol yr Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg ragweladwy.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol
Mae cynlluniau'r elusen ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar gryfhau ansawdd, cynaliadwyedd a hygyrchedd ein darpariaeth gofal plant. Bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau i adolygu ein trefniadau llywodraethu i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n llawn, yn wydn ac yn gallu diwallu anghenion teuluoedd o fewn cymuned yr ysgol.
Prif flaenoriaeth yw datblygu ymhellach y profiadau dysgu a chwarae a gynigir drwy Clwb Ffrindie Bach a'r Clwb ar ôl Ysgol. Bydd staff yn parhau i wella cynllunio gweithgareddau yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, gyda ffocws arbennig ar ddysgu awyr agored, creadigrwydd a datblygiad cymdeithasol. Ein nod yw ehangu'r ystod o adnoddau sydd ar gael i blant, gan sicrhau bod gweithgareddau'n parhau i fod yn ymgysylltiol, cynhwysol ac yn ymateb i'w diddordebau.
Mae'r elusen yn ymrwymedig i ddatblygiad staff parhaus.

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedlwyr uchod.

Arwyddwyd ar ran yr ymddiriedolwyr elusen

Dyfan Phillips

Dyfan Mael Phillips
Ymddiriedolwr a Phennaeth
Dyddiad 15/07/2026

Clwb Ffrindie Bach

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i ymddiriedolwyr Clwb Ffrindie Bach

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau Clwb Ffrindie Bach ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2023 fel ag y gwelir ar dudalennau 6 hyd 8.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Llofnodwyd *R A Roberts*
R A Roberts BSc FCA
Hill & Roberts, Cyfrifwyr Siartredig, 1 Tan y Castell Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1DQ
Dyddiad: 15/07/2026

Enw'r Elusen: Clwb Ffrindie Bach **Rhif yr elusen: 1193114**

Math o elusen: Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC)

Cyfrif derbyniadau a thaliadau

Am y flwyddyn o 01 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023

Adran A Derbyniadau a thaliadau

	2023 Cronfa heb gyfyngiad £	2023 Cronfa wedi ei gyfyngu £	2023 Cronfa gwaddol £	2023 Cyfanswm cronfeydd £	2022 Cyfanswm cronfeydd £
A1 - Derbyniadau					
Arian o Glwb Pen Barras ar ddechrau'r flwyddyn	-			-	9,704
Arian o Glwb Ffrindiau Bach ar ddechrau'r flwyddyn	-			-	43,670
Grant Cyngor Sir Ddinbych	-			-	8,725
Ffioedd rhieni	79,802			79,802	71,602
Cynnig Gofal Plant Cymru	43,918			43,918	28,224
Cyflogwyr a thalebau gofal plant	20,118			20,118	18,571
Grant Llywodraeth Ffyrlo	-			-	447
Grant Llywodraeth Lwfans Cyflogwr	-			-	341
Is gyfanswm (incwm gros ar gyfer yr AB)	143,838	-	-	143,838	181,284
A2 - Gwerthiannau asedau a buddsoddiadau (gweler y tabl)					
				-	
	-	-	-	-	-
Cyfanswm derbyniadau	143,838	-	-	143,838	181,284
A3 - Taliadau					
Adnoddau	6,730			6,730	7,837
Costau gweinyddu allanol	3,760			3,760	3,760
Cyflogau	100,440			100,440	93,721
Pensiwn cyflogwr	925			925	847
Hyfforddiant	117			117	85
Rhent	14,500			14,500	12,000
Glanhau	145			145	-
Yswiriant	419			419	415
Papur ac argraffu	-			-	46
Cyfrifo a chyflogres	1,697			1,697	2,200
Costau banc	137			137	43
Lluniaeth a byrbryd	263			263	109
Gwasaneth Datgelu a Gwahardd	651			651	330
Manion	567			567	184
Tanysgrifiadau	174			174	84
Is gyfanswm	130,525	-	-	130,525	121,661

Cyfrif derbyniadau a thaliadau
Am y flwyddyn o 01 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023

Adran A Derbyniadau a thaliadau

	2023 Cronfa heb gyfyngiad £	2023 Cronfa wedi ei gyfyngu £	2023 Cronfa gwaddol £	2023 Cyfanswm cronfeydd £	2022 Cyfanswm cronfeydd £
A4 - Pryniannau asedau a buddsoddiadau (gweler y tabl)				-	
	-	-	-	-	-
Cyfanswm taliadau	130,525	-	-	130,525	121,661
Derbyniadau llai taliadau	13,313	-	-	13,313	59,623
A5 Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd				-	
A6 Cronfeydd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	59,623			59,623	
Cronfeydd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn hon	72,936	-	-	72,936	59,623

Enw'r Elusen: Clwb Ffrindie Bach **Rhif yr elusen: 1193114**

Math o elusen: Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC)

Cyfrif derbyniadau a thaliadau

Am y flwyddyn o 01 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023

Adran B Datganiad o asedau a rhwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod

	Cronfa heb gyfyngiad £	Cronfa wedi ei gyfyngu £	Cronfa gwaddol £
B1 Cronfeydd arian parod			
Cyfrif banc cyfredol Clwb Pen Baras	18,365		
Cyfrif banc cyfredol Clwb Ffrindiau Bach	54,571		
	72,936	-	-

	Cronfa y mae'r ased yn perthyn iddi £	Cost (dewisol) £	Gwerth cyfredol (dewisol) £
B2 Asedau ariannol eraill			
	-	-	-
B3 Asedau buddsoddi			
	-	-	-
B4 Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen ei hun			
	-	-	-

	Cronfa y mae'r atebolrwydd yn ymwneud â hi £	Swm sy'n ddyledus (dewisol) £	Pryd mae'n ddyledus (dewisol) £
B5 Rhwymedigaethau			
	-	-	-

Wedi ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr

Llofnod	Enw	Dyddiad
Dyfan Phillips	Dyfan Mael Phillips	15/07/2026
Ffion Hughes	Ffion Hughes	15/07/2026